COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR / YN RHITHWIR DDYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2022, AM 2.30PM

Yn bresennol

Y Cynghorydd – HJ David – Arweinydd/Cadeirydd

Cynghorwyr

J Gebbie, N Farr, J Spanswick
H Williams, JP Blundell

Ymddiheuriadau

R Goode

Swyddogion:

M Shephard, C Marchant, L Harvey, J Nightingale, C Lord, K Watson, H Picton, M Pitman, J Ellams -

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adfywio Glannau Porthcawl: Meddiannu Tir ym Mharc Griffin a Sandy Bay |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Gwnaeth y Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r hysbyseb am y bwriad i feddiannu tir ym Mharc Griffin a Sandy Bay ac ymatebion swyddogion i'r sylwadau hynny a nodir yn Atodiad 5 i'r adroddiad.<br><br>2. Cymeradwyodd y Cabinet feddiannu, at ddibenion cynllunio, y tir ym Mharc Griffin a Sandy Bay a amlinellwyd mewn coch ar y Cynllun Meddiannu (Atodiad 1) |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu | Dim |

| | |
|---|---|
| Ragfarnus a Ddatgelwyd | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Galw Penderfyniad y Cabinet i Mewn: Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar ôl 2024 |
| Penderfyniad a Wnaed | Gwnaeth y Cabinet ystyried argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad a chytunwyd i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynnig i Weithredu Gwaharddiad ar Roi Anifeiliaid Byw fel Gwobrau ar Dir y Cyngor a Throsolwg o Waith i Sicrhau Safonau Uchel o Iechyd a Lles Anifeiliaid ar draws y Fwrdeistref Sirol |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Nodwyd gwaith y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i sicrhau bod safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu cynnal ar draws y fwrdeistref sirol<br>2. Nodwyd a chefnogwyd ymgyrch yr RSPCA i wahardd yr arferion o roi anifeiliaid byw fel gwobrau.<br>3. Cymeradwywyd y gwaith o weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar yr holl dir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen arno.<br>4. Cytunwyd y dylid gwneud trigolion yn ymwybodol mai nhw sydd â'r ddyletswydd i blismona'r gwaharddiad a bod angen ymateb cymuned gyfan. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |

| | |
|---|---|
| | |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2021-22 |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet wedi nodi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021-22. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Hunanasesiad Corfforaethol |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad hunanasesu corfforaethol 2021-22 a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 19 Hydref 2022. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adolygu Targedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-23 |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet dargedau diwygiedig y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-2023 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad (yn amodol ar yr addasiadau i'r targedau a gynigiwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau) a'u hargymell i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar 19 Hydref 2022 |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Sefydlu Bwrdd Cynghori gydag Awen i Gefnogi Cyfeiriad Strategol a Datblygu Partneriaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Cymeradwyodd y Cabinet y newid arfaethedig i ddull Bwrdd Cynghori er mwyn cefnogi'r bartneriaeth a'r trefniant contractiol presennol yn well ac i hysbysu Awen o'r newid y cytunwyd arno.<br><br>2. Penderfynodd y Cabinet ar y gynrychiolaeth ar y Bwrdd Cynghori.<br><br>3. Dirprwyodd y Cabinet awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i drafod a chytuno ar delerau terfynol y Weithred Amrywio ac i drefnu cyflawni'r Weithred Amrywio ar ran y Cyngor, yn amodol ar arfer awdurdod dirprwyedig o'r fath mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |

| | |
|---|---|
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Darparu Gofal a Chymorth mewn Sefydliadau Diogel |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r cyfrifoldebau ar gyfer y Cyngor o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;<br><br>2. Yn cymeradwyo trosglwyddo’r ddarpariaeth gofal a chymorth yn CEM y Parc i’r Cyngor, gan nodi goblygiadau TUPE fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.10 yr adroddiad;<br><br>3. Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Swyddog Adran 151 i barhau â'r trafodaethau gyda G4S a chwblhau cytundeb wedi'i amrywio, neu un newydd, gyda G4S, ac ymrwymo iddo. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Canlyniad Hysbysiad Cyhoeddus i Agor Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan Sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Disgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Tremains. |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | • Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod rhybudd cyhoeddus;<br>• Cymeradwywyd y gwaith o weithredu'r cynnig gyda dyddiad agor o dymor yr hydref 2022. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ysgol Gynradd Coety – Caniatâd i Ddechrau Ymgynghoriad Statudol |
| Penderfyniad a Wnaed | Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i ddechrau proses ymgynghori statudol i wneud newid rheoleiddiedig i ehangu Ysgol Gynradd Coety i fod yn ysgol â system mynediad 2.5 dosbarth gyda meithrinfa ag 88 o leoedd cyfwerth ag amser llawn o ddechrau tymor y gwanwyn 2025. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Canlyniad Hysbysiad Cyhoeddus i Agor Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan Sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | 1. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod rhybudd cyhoeddus;<br>2. Cymeradwywyd y gwaith o weithredu'r cynnig. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau y manylwyd arnynt ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, yn amodol ar ddileu'r Cynghorydd Alex Williams ar gyfer Ysgol Gyfun Pencoed. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Canlyniad Hysbysiad Cyhoeddus Ysgol Heronsbridge |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Nodwyd canlyniad yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd i wneud newidiadau rheoleiddiedig i Ysgol Heronsbridge i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer i 300 ac i adleoli'r ysgol o'i lleoliad presennol yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr, i Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr; 2.<br>2. Penderfynwyd addasu dyddiad gweithredu'r cynnig i ddechrau tymor y gwanwyn 2026;<br>3. Cymeradwywyd cyflwyno a chyhoeddi llythyr penderfyniad, fel sy'n ofynnol gan y cod. |

| | |
|---|---|
| | |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ysgol Heronsbridge, Caffael |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Cymeradwywyd y strategaeth gaffael a ffefrir fel y nodir ym mharagraffau 4.2, 4.3 a 4.16 yr adroddiad mewn perthynas â phenodi tîm dylunio a phrif gontractiwr ar gyfer Ysgol Heronsbridge;<br>2. Cymeradwywyd i fwrw ymlaen â'r broses gaffael;<br>3. Nodwyd y bydd y Cabinet yn cael adroddiad yn y dyfodol ynghylch canlyniad yr arfarniad opsiynau mewn perthynas â darpariaeth breswyl a seibiant y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;<br>4. Nodwyd y bydd y Cabinet yn cael adroddiad yn y dyfodol cyn dyfarnu'r prif gontract adeiladu sy'n nodi'r sefyllfa o ran costau a chyllideb y prosiect. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Canlyniad Hysbysiad Statudol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | 1. Nodwyd canlyniad yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i fod yn ysgol â system mynediad 2.5 dosbarth, gyda meithrinfa â 90 o leoedd cyfwerth ag amser llawn, ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu ag wyth lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan;<br>2. Penderfynwyd rhoi'r cynnig ar waith o ddechrau tymor yr hydref 2025;<br>3. Cymeradwywyd cyflwyno a chyhoeddi llythyr penderfyniad, fel sy'n ofynnol gan y cod. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg – Tref Pen-y-bont ar Ogwr |
| Penderfyniad a Wnaed | Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i gydleoli darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr ag Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Moderneiddio Ysgolion – Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Addasu Dyddiad Agor Ysgol Cyfrwng Saesneg |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | 1. Cymeradwywyd Opsiwn A fel y rhaglen a ffefrir ar gyfer gwaith cyflwyno'r ysgolion;<br>2. Addasu dyddiad agor arfaethedig ysgol cyfrwng Saesneg newydd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr hyd at fis Medi 2024. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021-2022 |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y dadansoddiad o fylchau a'r cynllun gweithredu (ynghlwm fel atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad) i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021–2022. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Monitro Cyllideb 2022-23 Ch2 Rhagolwg Refeniw |
| Penderfyniad a Wnaed | Nododd y Cabinet y sefyllfa refeniw a ragwelir ar gyfer 2022-23. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu | Dim. |

| | |
|---|---|
| Ragfarnus a Ddatgelwyd | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf Ch2 2022-23 |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>• Nodwyd diweddariad Chwarter 2 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2022-23 hyd at 30 Medi 2022 (Atodiad A i'r adroddiad);<br>• Cytunwyd i gyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w chymeradwyo;<br>• Nodwyd y dangosyddion darbodus ac eraill a ragwelir ar gyfer 2022-23 (Atodiad C) |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rheoli'r Trysorlys – Chwarter 1 2022-23 |
| Penderfyniad a Wnaed | Nododd y Cabinet weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022-23 am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 30 Mehefin 2022 a'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys a ragwelir ar gyfer 2022-23. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys Blynyddol 2021-22 |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Nodwyd y gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer 2021-22.<br>2. Nodwyd y Dangosyddion Rheoli Trysorlys gwirioneddol ar gyfer 2021-22 yn erbyn y rheini a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021-22. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyaeth ar gyfer Tendr o Bolisïau Yswiriant Blynyddol |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i ddechrau'r broses dendro ar gyfer yr holl bolisïau yswiriant blynyddol i gychwyn ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer Cytundeb Tymor Hir hyd at uchafswm o bum mlynedd.<br><br>2. Nododd y Cabinet y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar ganlyniad y broses dendro ar gyfer caffael y polisïau yswiriant ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract o ganlyniad i hynny. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cyfansoddiad a Chanllaw Cyfansoddiad |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Cymeradwywyd argymhellion y Gweithgor Gwasanaethau Democrataidd i'r graddau yr oeddent yn ymwneud â swyddogaethau'r Weithrediaeth (cyfeirir at Atodiad 4 o'r adroddiad);<br>2. Cymeradwywyd y cyfansoddiad diwygiedig (Atodiad 1) a'r canllaw cyfansoddiad (Atodiad 2 a 3) mewn perthynas â swyddogaethau'r Weithrediaeth;<br>3. Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 19 Hydref 2022 yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r cyfansoddiad a chanllaw diwygiedig o 1 Rhagfyr 2022. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Atal Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a Dyfarnu Contract ar gyfer Cyflenwi Gweithwyr Dros Dro |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Cymeradwywyd parhad y cyflenwad o weithwyr dros dro, i ganiatáu i adolygiad llawn a phroses dendro sy'n cydymffurfio'n llawn ddigwydd.<br>2. Ataliwyd y rhannau perthnasol o adolygiadau ymarfer plant y Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad ynghylch ail-dendro'r contract arfaethedig;<br>3. Awdurdodwyd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i ymrwymo i gontract ar gyfer Cyflenwi Gweithwyr Dros Dro tan 10 Mai 2024. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br><br>1. Cymeradwywyd Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2022 i 28 Chwefror 2023 yn Atodiad 1 i'r adroddiad;<br>2. Nodwyd Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi |
| Penderfyniad a Wnaed | Gwnaeth y Cabinet gydnabod cyhoeddi’r ddogfen a restrwyd yn yr adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Hydref 2022 |
| Buddiannau Personol neu | Dim. |

| | |
|---|---|
| Ragfarnus a Ddatgelwyd | |